
Diweddariad Cysylltu'r Gwledydd

Hydref 2022

ADRODDIAD:

Dyddiad cyhoeddi: 07 Hydref 2022

Cynnwys

Adran

1. Trosolwg	1
2. Dangosfyrddau	7

1. Trosolwg

Dyma'r ail ddiweddariad interim i'n hadroddiad blynyddol Cysylltu'r Gwledydd, a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021. Mae wedi'i seilio ar y ddarpariaeth symudol ac argaeledd band eang sefydlog ar draws y DU fel yr oedd y sefyllfa ym mis Mai 2022.

Prif ganfyddiadau

Mae nifer y cartrefi sy'n gallu cael band eang cyfradd gigabit wedi cynyddu i bron 20.2 miliwn o gartrefi (68% o holl gartrefi'r DU), i fyny o 19.3 miliwn (66%) ers ein diweddariad diwethaf

Mae'r ddarpariaeth ffeibr llawn yn parhau i gynyddu'n gyflym, i fyny at 37% o 33% yn y pedwar mis rhwng mis Ionawr 2022 a mis Mai 2022, cynnydd o bedwar pwynt canran, gydag ychydig dros 11 miliwn o gartrefi yn cael darpariaeth erbyn hyn.

Mae'r ddarpariaeth band eang cyflym iawn ar draws y DU yn dal i fod ar 96%, gyda Gogledd Iwerddon yn gweld cynnydd o bwynt canran yn y ddarpariaeth gyflym iawn.

Mae nifer yr eiddo nad ydynt yn gallu cael band eang digonol, wrth ystyried llinell sefydlog a di-wifr sefydlog, wedi gostwng o 99,500 i 83,000 o eiddo ers ein diweddariad yn y Gwanwyn. Mae'r rheini nad ydynt yn gallu cael band eang digonol dros linell sefydlog wedi cynyddu o 506,000¹ i 513,000 dros yr un cyfnod.

Mae darpariaeth symudol yn dal yn sefydlog ac mae gweithredwyr yn dechrau cyflwyno darpariaeth i ardaloedd newydd drwy'r **Rhwydwaith Gwledig a Rennir**, mewn cytundeb a wnaed gyda Llywodraeth y DU yn 2020. O ganlyniad i hyn, mae disgwyl i ddarpariaeth genedlaethol gynyddu yn ystod y blynyddoedd nesaf. *Mae darpariaeth 5G yn parhau i ddatblygu ac rydym yn cyflwyno rhai ffigurau darpariaeth cynnar yn y tablau isod.*

Fel yr oeddem yn ei wneud gyda diweddariadau blaenorol, rydym wedi cyhoeddi [adroddiad rhyngweithiol](#) sy'n cynnwys y data diweddaraf a data hanesyddol.

Rydym hefyd wedi defnyddio'r data yn yr adroddiad hwn i ddiweddarau ein [tecln gwirio darpariaeth band eang a symudol](#).

Y prif ganfyddiadau - Band eang sefydlog

Band eang cyfradd gigabit: mae argaeledd band eang sy'n gallu darparu cyfraddau gigabit² i ddefnyddwyr yn parhau i wella'n gyflym, gyda bron i 20.2 miliwn o gartrefi yn y DU³ (68%) nawr yn gallu cael gafael ar y gwasanaethau cyflymach hyn, i fyny o 19.3 miliwn o gartrefi (66%) fel y nodwyd

¹ Mae anghysondebau bach yn gallu codi yn y data oherwydd y gwahaniaethau yn 'epoch' y gronfa ddata cyfeiriadau eiddo a ddefnyddir gan Ofcom o'i gymharu â'r hyn a ddefnyddir gan ddarparwyr gwasanaethau

² Mae rhwydweithiau cyfradd gigabit yn cynnwys rhwydweithiau ffeibr llawn yn ogystal ag unrhyw rwydwaith sy'n gallu cynnig o leiaf 1 Gbit yr eiliad o gyflymder llwytho i lawr (fel y fersiwn ddiweddaraf o dechnoleg rhwydwaith cebl Virgin Media O2 – DOCSIS 3.1).

³ Rydym yn adrodd ar eiddo preswyl (cartrefi) o ran darpariaeth ffeibr llawn a darpariaeth gyflym iawn, ond rydym yn adrodd ar eiddo masnachol a phreswyl o ran 'band eang digonol.

yn ein diweddariad ar gyfer gwanwyn 2022. Mae hyn wedi cael ei sbarduno gan y ffaith bod nifer o weithredwyr rhwydwaith yn parhau i gyflwyno band eang ffeibr llawn, gan ddarparwyr sydd wedi hen ennill eu plwyf a rhai sy'n newydd i'r farchnad. Mae rhaglen uwchraddio Virgin Media O2 wedi dod i ben erbyn hyn, ac mae cyfradd twf metrig y ddarpariaeth hon wedi arafu o'i gymharu â'r cyfnod blaenorol. Mae Virgin Media O2 wedi cyhoeddi cynlluniau pellach i barhau i ehangu cwmpas daearyddol ei seilwaith.⁴

Darparu ffeibr llawn: Mae gan fwy na thraean (37%) o gartrefi fynediad at wasanaethau ffeibr llawn. Mae darpariaeth ffeibr llawn ychydig dros 11 miliwn erbyn hyn, sy'n gynydd o'r 9.6 miliwn (33%) a gofnodwyd yn ein diweddariad ar gyfer gwanwyn 2022. Mae hyn yn cael ei sbarduno'n bennaf drwy ddarpariaeth gan y gweithredwyr seilwaith ffeibr mwy, ond a gefnogir gan nifer o ddarparwyr llai ledled y DU sy'n gwasanaethu cymunedau a rhanbarthau unigol. Mae rhai o'r darpariaethau hyn yn elwa o amrywiaeth o gynlluniau cyllido'r sector cyhoeddus a amlinellir isod.

Band eang cyflym iawn (cyflymder llwytho i lawr sydd o leiaf 30 Mbit yr eiliad): Mae cyflwyno band eang cyflym iawn ledled y DU yn parhau i dyfu er ei fod yn arafach (mae'r ddarpariaeth yn dal ar 96% o gartrefi'r DU). Efallai fod hyn oherwydd yr anhawster cynyddol o ran cyrraedd y 4% olaf o eiddo, yn ogystal â'r ffocws cynyddol ar gyflwyno ffeibr llawn newydd a chysylltiadau eraill cyfradd gigabit ledled y DU. Mae cynlluniau ar gael o hyd sy'n cael eu hariannu gan arian cyhoeddus ac sy'n cefnogi band eang cyflym iawn a allai wella'r ffigur hwn dros amser.

Band eang digonol (cyflymder llwytho i lawr sydd o leiaf 10 Mbit yr eiliad a llwytho i fyny o 1 Mbit yr eiliad): mae mwyafrif helaeth yr holl eiddo yn y DU yn gallu manteisio ar fand eang digonol. Mae nifer yr eiddo (preswyl a masnachol) nad ydynt yn gallu cael gwasanaeth band eang digonol drwy linell sefydlog yn oddeutu 513,000 (yn aros ar 2%), wedi cynyddu o 506,000 ers ein diweddariad yn y gwanwyn.

Mae gwasanaethau band eang hefyd ar gael drwy rwydweithiau Mynediad Di-wifr Sefydlog (FWA), a ddarperir drwy rwydweithiau symudol neu drwy Ddarparwyr Gwasanaeth Rhynggrwyd Di-wifr (WISPs). Os byddan nhw'n cael eu rheoli'n dda, gall rhwydweithiau Mynediad Di-wifr Sefydlog ddarparu gwasanaeth band eang digonol, a gellir eu defnyddio fel technoleg rhwydwaith amgen lle nad oes gan ddefnyddwyr fynediad at gysylltiad band eang digonol dros rwydwaith sefydlog. Rydym yn parhau i gasglu data gan Ddarparwyr Gwasanaeth Rhynggrwyd Di-wifr ac yn seiliedig ar y ddarpariaeth a adroddir gan y darparwyr hyn, mae hyn yn dal yn 7% o eiddo sy'n gallu cael gwasanaeth band eang digonol gan Ddarparwyr Gwasanaeth Rhynggrwyd Di-wifr (yr un fath â'r hyn sydd yn Niweddariad Gwanwyn 2022). Mae darpariaeth Mynediad Di-wifr Sefydlog gan rwydweithiau symudol sy'n gallu darparu band eang digonol ar gael i bron 95% o eiddo.

Gan ystyried yr amcangyfrifon darpariaeth a roddwyd gan ddarparwyr Mynediad Di-wifr Sefydlog, rydym yn amcangyfrif y gallai oddeutu 83,000 o eiddo fod yn weddill, nad oes ganddynt fynediad at wasanaeth band eang digonol o rwydwaith sefydlog neu rwydwaith Mynediad Di-wifr Sefydlog. Mae hyn wedi gostwng o'n hamcangyfrif o 99,500 yn ein diweddariad yn y gwanwyn.

O'r rhain, nid oes disgwyl i oddeutu 66,000 o eiddo fod yn rhan o'r gwaith o gyflwyno cynlluniau a ariennir gan arian cyhoeddus yn ystod y deuddeg mis nesaf. Efallai y bydd y rhain yn gymwys ar gyfer

⁴ [Virgin Media O2 UK Extend Broadband to Older OFNL Sites - ISPreview UK](#)

y cynnyrch USO band eang yn amodol ar ragor o archwiliadau a chadarnhad gan y darparwyr gwasanaeth cyffredinol (BT a KCOM).

Mae'r ffigurau uchod yn dangos argaeledd gwasanaethau band eang ar draws y DU; byddwn yn adrodd yn fwy manwl ar y nifer sy'n defnyddio gwasanaethau band eang yn ein hadroddiad Cysylltu'r Gwledydd blynyddol ar gyfer 2022.

Y prif ganfyddiadau - Symudol

Rydym yn mesur darpariaeth symudol mewn ffordd sy'n adlewyrchu profiad tebygol pobl sy'n defnyddio eu ffonau symudol.⁵ Ni fu cynnydd sylweddol yn y ddarpariaeth ers ein diweddariad diwethaf, ond rydym yn disgwyl i'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir, y cytunwyd arno rhwng Llywodraeth y DU a'r diwydiant yn 2020, sbarduno gwelliannau i'r ddarpariaeth dros y blynyddoedd nesaf.

4G: Ni welwyd newidiadau sylweddol yn darpariaeth y rhwydweithiau symudol 4G ar draws y DU dros y cyfnodau adrodd diwethaf. Rhagwelir fod gan oddeutu 92% o ehangdir y DU ddarpariaeth 4G dda yn yr awyr agored gan o leiaf un gweithredwr, ac mae'r ardal hon yn cynnwys yr holl eiddo yn y DU bron. Disgwylir i hyn godi i 95% erbyn diwedd 2025 o ganlyniad i'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer Cymru a'r Alban yn sylweddol is ar hyn o bryd. Dylid nodi bod gweithredwyr rhwydweithiau symudol unigol wedi ymrwymo i sicrhau darpariaeth rhwng 85% ac 88% yng Nghymru erbyn 2027⁶ o dan fuddsoddiad Rhwydwaith Gwledig a Rennir (SRN) llywodraeth y DU, a rhwng 82% ac 85% yn yr Alban.

Mannau digyswllt 4G: Yn y DU, mae manau digyswllt daearyddol a ffyrdd (hynny yw, ardaloedd lle nad oes gwasanaethau 4G da ar gael gan unrhyw weithredwr symudol). Mae manau digyswllt daearyddol wedi aros yr un fath ers ein diweddariad yng ngwanwyn 2022, sef 8%. Mae'r ddarpariaeth ar ffyrdd yn aros yr un fath i raddau helaeth, gyda dim ond 4% o'r holl ffyrdd yn cael eu hystyried yn fannau digyswllt mewn cerbydau. Mae hyn yn amrywio'n sylweddol ar draws gwledydd unigol, yn enwedig yn yr Alban a hefyd yng Nghymru. Mae'r Alban wedi elwa o ostyngiad un pwynt canrannol mewn manau digyswllt daearyddol ers ein diweddariad yn y gwanwyn, ac rydym yn priodoli hynny i'r cynllun Rhwydwaith Gwledig a Rennir.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun: Fel gyda 4G, ni fu fawr o newid at ei gilydd yn y ddarpariaeth a ragwelir ers y cyfnodau adrodd blaenorol. Mae ystod y ddarpariaeth a ragwelir gan weithredwyr rhwydweithiau symudol yn amrywio o 85-92% o ehangdir y DU, yn dibynnu ar y gweithredwr, ar gyfer galwadau a gwasanaethau testun a rhwng 99-c.100% o eiddo (yn yr awyr agored) yn y DU, eto yn dibynnu ar y gweithredwr.

Mannau digyswllt galwadau/negeseuon testun: Yn yr un modd, nid yw'r ardaloedd lle nad yw pobl yn gallu gwneud galwad neu anfon neges destun gan unrhyw weithredwr (mannau digyswllt) wedi newid, gyda thua 4% o ddaearyddiaeth y DU yn cael ei amcangyfrif yn fan digyswllt. Amcangyfrifir bod tua 2% o ffyrdd y DU yn fannau digyswllt ar gyfer galwadau a negeseuon testun sy'n cael eu gwneud neu eu derbyn mewn cerbyd. Fel sy'n wir am 4G, mae amrywiadau amlwg rhwng y

⁵ Mae diffiniadau manwl ar gael ym [methodoleg adroddiad mis Rhagfyr 2021](#).

⁶ Mae hwn wedi cael ei ddiwygio ar gyfer 2026 ers ein diweddariad diwethaf.

gwledydd unigol; er enghraifft, mae'r manau digyswllt daearyddol ar draws yr Alban yn dal yn uwch nag yng ngweddill y DU, sydd oddeutu 10%. Mae hyn, ynghyd â manau digyswllt yng Nghymru, wedi gostwng un pwynt canran ers ein diweddariad diwethaf yn y Gwanwyn.

5G: Gwnaethom adrodd ar ddarpariaeth 5G gan 'Pob Gweithredwr Rhwydwaith Symudol' a gan 'O leiaf un Gweithredwr Rhwydwaith Symudol' am y tro cyntaf ym mis Rhagfyr 2021. Rydym yn parhau i adrodd ar yr un sail yma, gyda lefelau'r ddarpariaeth yn amrywio o lefel hyder uchel i uchel iawn. Mae'r ddarpariaeth gan 'O leiaf un Gweithredwr Rhwydwaith Symudol' bellach yn amrywio o 48% (hyder uchel iawn) i 64% (hyder uchel) o eiddo yn yr awyr agored, i fyny o 47% a 62% yn y drefn honno pan gawsom ein diweddariad diwethaf yn y Gwanwyn.⁷

Cynlluniau ar draws y DU a'r Gwledydd sy'n cefnogi rhwydweithiau band eang

Fel rhan o'i adolygiad o fynediad, mae Ofcom wedi rhoi rheolau ar waith i sbarduno buddsoddiad sydd yn sicrhau canlyniadau erbyn hyn. Mae'r rheolau hyn wedi'u pennu dros gyfnod o bum mlynedd.

Y Deyrnas Unedig: Ar 22 Chwefror 2022, cyhoeddwyd 'Gigabit Broadband in the UK: Government targets and policy'⁸. Cadarnhaodd hyn unwaith eto ymrwymiad y llywodraeth i gyrraedd 85% o aelwydydd y DU sydd â band eang cyfradd gigabit erbyn 2025, ac y byddai'r ffigur hwn erbyn 2030 yn cyrraedd o leiaf 99%. Mae'r llywodraeth wedi cyhoeddi Hysbysiad Gwybodaeth Ymlaen Llaw er mwyn gallu rhyddhau £800m arall, o'i Rhaglen Gymorth i Seilwaith Gigabit. Bydd tua 7,000 o eiddo anodd eu cyrraedd yn Dorset yn elwa o gael cysylltiad Gigabit, a disgwylir y bydd hyn wedi'i gwblhau erbyn 2025.⁹

Mae targedau'r llywodraeth ar gyfer darpariaeth symudol yn cynnwys darpariaeth ddaearyddol o 95% ar gyfer 4G ac y byddai gan y rhan fwyaf o'r boblogaeth fynediad at signal 5G erbyn 2030.

Yr Alban: Mae'r gwaith o lunio contract rhaglen Reaching 100% (R100) Llywodraeth yr Alban yn mynd rhagddo'n dda, ac mae'r cysylltiadau bellach yn fyw ym mhob ardal gontract ar draws yr Alban. Mae hyn yn cynnwys Lot y Gogledd, lle mae gwaith wedi dechrau i osod 16 o geblau newydd dan y môr i ymestyn band eang cyflymach i gymunedau ynysoedd yr Alban. Bydd hyn yn cysylltu eiddo ar 15 o ynysoedd â band eang cyflymach sy'n gallu darparu cyflymder llwytho i lawr o un gigabit yr eiliad.¹⁰ Ym mis Awst, cyhoeddodd Llywodraeth yr Alban waith ymestyn pellach gwerth £36 miliwn ar gontractau R100. Bydd Prosiect Gigabit Llywodraeth y DU yn ariannu £16 miliwn o'r buddsoddiad ychwanegol hwn, a bydd Llywodraeth yr Alban yn darparu'r £20 miliwn ychwanegol i gontract y Gogledd.¹¹ Mae cymorth ychwanegol yn cael ei ddarparu drwy Gynllun Talebau Band Eang yr Alban ac, mewn rhai achosion, mae modd cyfuno hwn â chyllid gan Gynllun Talebau Band Eang Gigabit Llywodraeth y DU.¹²

⁷ Nodwn fod gwaith i ddilysu rhagfynegiadau 5G newydd Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol yn parhau.

⁸ Llyfrgell Tŷ'r Cyffredin, [Gigabit Broadband in the UK: Government targets and policy](#), 25 Chwefror 2022.

⁹ [Work begins on first major broadband upgrade under £5 billion Project Gigabit - GOV.UK \(www.gov.uk\)](#)

¹⁰ [Improving broadband access - gov.scot \(www.gov.scot\)](#)

¹¹ <https://www.gov.scot/news/delivering-faster-internet/>

¹² Digital Scotland, [Cynllun Talebau Band Eang yr Alban](#).

Mae Llywodraeth yr Alban hefyd yn parhau i gefnogi cyflwyno rhwydweithiau drwy'r Siarter Ffeibr Llawn gyda darparwyr cyfathrebu. Ym mis Ebrill 2022, addawodd pum darparwr arall gefnogaeth i sicrhau'r ddarpariaeth orau bosib yn yr Alban. Yn gyfnewid am hynny, mae Llywodraeth yr Alban yn cynnig gostyngiad 100% oddi ar ardrethi annomestig ar gyfer ffeibr sydd newydd ei osod tan 2034.¹³

Ar ben hynny, mae Rhaglen Mewnlenni 4G Llywodraeth yr Alban wedi cyrraedd hanner ffordd erbyn hyn, gan adeiladu a rhoi 28 o fastiau ar waith, gyda'r 27 arall ar y trywydd iawn i gael eu cysylltu erbyn 2023.¹⁴ Ochr yn ochr â'r Rhwydwaith Gwledig a Rennir, bydd hyn yn helpu i fynd i'r afael â manau digyswllt symudol 4G ledled yr Alban.

Cymru: Ym mis Gorffennaf, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ddiweddariad ar gysylltedd digidol yng Nghymru. Mae wedi dod i gytundeb gydag Openreach i ymestyn prosiect Cyflymu Cymru i 31 Mawrth 2023 i sicrhau bod cynifer o safleoedd â phosib yn gallu elwa. Nifer y safleoedd y mae'n rhaid datblygu hyn ar eu cyfer o dan y cynllun cyflwyno y cytunwyd arno yw 37,137. Er bod hyn ychydig yn is na'r 39,000 o safleoedd a ragwelwyd, mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod bod nifer sylweddol o'r eiddo a oedd wedi'u tynnu o'r cwmpas eisoes wedi cael mynediad at fand eang gigabit o dan gynlluniau cyflwyno masnachol.

Mae Cronfa Band Eang Lleol Llywodraeth Cymru yn parhau i helpu awdurdodau lleol a mentrau cymdeithasol i ddarparu prosiectau band eang yn lleol. Mae cynllun Allwedd Band Eang Cymru¹⁵ yn darparu grantiau i ariannu (neu ariannu'n rhannol) costau gosod cysylltiadau band eang newydd ar gyfer cartrefi a busnesau yng Nghymru. Yn dilyn argymhelliad gan Gomisiwn Seilwaith Cenedlaethol Cymru gan ddilyn ei waith ar faterion seilwaith digidol, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal adolygiad o'r cynllun ac o ganlyniad, bydd yn symleiddio'r broses ymgeisio ar gyfer defnyddwyr.

Ymunodd Ogi â'r farchnad ychydig dros flwyddyn yn ôl, ac mae wedi cadarnhau bod ei rwydwaith wedi ehangu'n sylweddol ar draws Cymru yn ystod y cyfnod diweddaraf o fuddsoddiad gwerth £200m, gan ymestyn y gwaith o'i gyflwyno i Ben-y-bont ar Ogwr, Caerffili a Rhondda Cynon Taf. Mae gwasanaethau gwibgyswllt Ogi ar gael erbyn hyn i gyfanswm o saith ardal awdurdod lleol – gan roi darpariaeth i 80,000 o eiddo a 38 cymuned. Mae'r gwaith ehangu diweddaraf yn nodi pwynt canol ei gynllun cam cyntaf i gyrraedd 150,000 o safleoedd.¹⁶

Gogledd Iwerddon: Cafodd y contract gwerth £165 miliwn ar gyfer cyflawni cynllun ymyriad band eang Prosiect Stratum ei ddyfarnu i Fibrus Networks Ltd ym mis Tachwedd 2020. Ym mis Ionawr 2022, sicrhawyd cyllid ychwanegol o £32m¹⁷ gan yr Adran dros Dechnoleg Ddigidol, Diwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, Adran yr Economi a'r Adran Amaethyddiaeth, yr Amgylchedd a Materion Gwledig (DAERA) i gynnwys 8,500 eiddo arall yng nghwmpas y prosiect. Mae'r rhai ychwanegol yn cynnwys 2,500 o eiddo anoddach eu cyrraedd a oedd y tu allan i gwmpas y contract gwreiddiol, yn gystal â 6,000 eiddo arall.

Bydd cyflwyno'r rhwydwaith ffeibr llawn newydd i gyrraedd pob un o'r 85,000 o eiddo, gan gynnwys y 8,500 o safleoedd ychwanegol, yn parhau ar draws pedwar chwarter estynedig o adeiladu'r

¹³ Llywodraeth yr Alban, [Boosting broadband access](#), 2 Ebrill 2022.

¹⁴ [Improving rural connectivity - gov.scot \(www.gov.scot\)](#)

¹⁵ Llywodraeth Cymru, [Cynllun grant Allwedd Band Eang Cymru](#), 31 Mawrth 2022.

¹⁶ [Ogi ramps up full-fibre broadband roll-out across south Wales \(computerweekly.com\)](#)

¹⁷ [Project Stratum extends coverage plans to additional 8,500 premises | Adran yr Economi \(economy-ni.gov.uk\)](#)

rhwydwaith, a disgwylir i Fibrus Networks gwblhau'r gwaith o'i gyflwyno'n llawn erbyn mis Mawrth 2025. Erbyn diwedd mis Mehefin 2022, roedd Fibrus wedi darparu seilwaith newydd i bron i 38,000 o eiddo.

Cywain y data ac adrodd arno

Rydym yn parhau i gynyddu nifer y gweithredwyr rydym yn cywain data darpariaeth ganddynt i sicrhau bod y data rydym yn ei gyhoeddi yn fwy cywir. Defnyddiwyd data gan 26 o ddarparwyr Mynediad Di-wifr Sefydlog (Darparwyr Gwasanaeth Rhyngwyd Di-wifr a Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol), a 58 o weithredwyr llinellau sefydlog i lunio'r adroddiad hwn. Rydym hefyd yn parhau i gywain data am ddarpariaeth bob pedwar mis a gwybodaeth am ddefnydd unwaith y flwyddyn.

Rydym wrthi'n casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth am waith arfaethedig i adeiladu rhwydweithiau gan ddarparwyr cyfathrebu yn y DU, a byddwn yn cyhoeddi canlyniadau hyn maes o law.

2. Dangosfyrddau

Band eang sefydlog

Mynediad at ffeibr llawn	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	28%	33%	37%
Lloegr	27%	31%	36%
Gogledd Iwerddon	71%	79%	83%
Yr Alban	27%	32%	36%
Cymru	27%	32%	36%

Mynediad at wasanaethau cyfradd gigabit	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	47%	66%	68%
Lloegr	46%	67%	69%
Gogledd Iwerddon	76%	82%	85%
Yr Alban	51%	60%	63%
Cymru	36%	46%	49%

Mynediad at wasanaethau cyflym iawn	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	96%	96%	96%
Lloegr	96%	97%	97%
Gogledd Iwerddon	91%	92%	93%
Yr Alban	94%	94%	94%
Cymru	94%	95%	95%

Mynediad at wasanaethau sydd o leiaf 10 Mbit yr eiliad	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	98%	99%	99%
Lloegr	99%	99%	99%
Gogledd Iwerddon	95%	96%	96%
Yr Alban	97%	97%	97%
Cymru	97%	98%	98%

Mynediad Di-wifr Sefydlog

Ers ein hadroddiad diwethaf, rydym wedi parhau i gywain data ar gyfer Darparwyr Gwasanaeth Rhyngwrwd Di-wifr sy'n darparu gwasanaeth band eang Mynediad Di-wifr Sefydlog. Mae'r canlynol yn dangos eiddo, preswyl a masnachol, lle mae band eang digonol ar gael drwy Fynediad Di-wifr Sefydlog.

Di-wifr Sefydlog	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU - Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol	94%	94%	95%
Y DU - Darparwyr Gwasanaeth Rhyngwrwd Di-wifr	7%	7%	7%

Cymhwysedd USO

Canran y cartrefi a'r busnesau nad ydynt yn gallu cael gafael ar wasanaeth band eang digonol, sef cyflymder llwytho i lawr o 10 Mbit yr eiliad o leiaf a chyflymder llwytho i fyny o 1 Mbit yr eiliad o leiaf.

Methu cael gwasanaethau 10Mbit yr eiliad llwytho i lawr ac 1Mbit yr eiliad llwytho i fyny (yn gymwys o bosib am USO)	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	0.4%	0.3%	0.3%
Lloegr	0.2%	0.2%	0.2%
Gogledd Iwerddon	2%	2%	1.2%
Yr Alban	1%	1%	0.8%
Cymru	1%	0.8%	0.6%

Nodyn 1: Dim ond os yw'r canlynol yn wir yr ydym yn ystyried bod gan eiddo "ddarpariaeth ffeibr llawn": 1. bod ffeibr ar gael yn agos at yr eiddo, fel mai dim ond cysylltiad ffeibr pwrpasol i'r eiddo sydd ei angen i ddarparu cysylltedd ffeibr llawn (o'r dechrau i'r diwedd), a 2. mai dim ond tâl cysylltu cyhoeddedig y cytunwyd arno ymlaen llaw y byddai disgwyl i'r defnyddiwr ei dalu, pe bai tâl o'r fath yn cael ei godi.

Nodyn 2: Mae'n bosib nad yw hyn yn cynnwys gwasanaethau band eang sydd ar gael gan rai darparwyr llai.

Nodyn 3: Mae'r ffigurau am y rhai a allai fod yn gymwys am USO yn cynnwys pob eiddo (preswyl a masnachol). Mae'r ffigurau am gyflymderau eraill yn cyfeirio at eiddo preswyl yn unig.

Darpariaeth 5G

Eiddo (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan o leiaf un gweithredwr	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	47-62%	48-64%
Lloegr	49-65%	51-67%
Gogledd Iwerddon	24-34%	24-34%
Yr Alban	40-54%	43-57%
Cymru	27-38%	29-42%

Eiddo (awyr agored) sy'n cael darpariaeth gan bob gweithredwr	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	4-12%	5-12%
Lloegr	5-13%	5-13%
Gogledd Iwerddon	2-6%	2-6%
Yr Alban	2-8%	2-10%
Cymru	2-5%	2-6%

Nodyn 4: Y trothwyon ar gyfer y Gwasanaeth 5G yw -110 dBm lle mae gennym hyder uchel yn y ddarpariaeth a -100 dBm lle mae gennym hyder uchel iawn yn y ddarpariaeth. Mae gwaith dilysu ar ragfynegiadau 5G newydd yn parhau.

Darpariaeth 4G

Eiddo (awyr agored) – ystod darpariaeth ar draws Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	99-c.100%	98-c.100%	99-c.100%
Lloegr	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Gogledd Iwerddon	97-99%	97-99%	97-99%
Yr Alban	97-99%	97-99%	97-99%
Cymru	96-99%	95-99%	96-99%

Ardal ddaearyddol – ystod darpariaeth ar draws Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	79-86%	79-86%	79-87%
Lloegr	92-94%	92-94%	92-94%
Gogledd Iwerddon	87-92%	87-92%	88-92%

Yr Alban	57-73%	57-74%	57-75%
Cymru	72-84%	72-85%	73-85%

Ardal ddaeryddol nad yw'n cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau digyswllt)	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	8%	8%	8%
Lloegr	2%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	18%	18%	17%
Cymru	10%	10%	10%

Darpariaeth ar bob ffordd (mewn cerbyd) – ystod darpariaeth ar draws Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	78-83%	78-83%	78-84%
Lloegr	83-88%	83-88%	84-88%
Gogledd Iwerddon	63-79%	65-79%	69-80%
Yr Alban	64-77%	64-78%	65-79%
Cymru	70-79%	70-79%	70-79%

Pob ffordd (mewn cerbyd) nad yw'n cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau digyswllt)	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	4%	4%	4%
Lloegr	2%	2%	2%
Gogledd Iwerddon	6%	7%	6%
Yr Alban	7%	7%	7%
Cymru	9%	9%	9%

Nodyn 5: Trothwyon ar gyfer gwasanaethau 4G: 4G (-105 dBm). Mae hyn yn ymwneud ag achosion lle mae bron pob cysylltiad yn gallu darparu cyflymder cysylltu sy'n 2Mbit yr eiliad o leiaf a galwadau llais dibynadwy.

Darpariaeth galwadau a negeseuon testun

Eiddo (awyr agored) – ystod darpariaeth ar draws Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Lloegr	c.100%	c.100%	c.100%
Gogledd Iwerddon	98-c.100%	98-c.100%	98-c.100%
Yr Alban	99-c.100%	99-c.100%	99-c.100%
Cymru	99%	99%	99%

Ardal ddaearyddol – ystod darpariaeth ar draws Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	85-92%	85-92%	85-92%
Lloegr	95-98%	95-98%	95-98%
Gogledd Iwerddon	89-98%	89-98%	89-98%
Yr Alban	68-82%	68-82%	68-82%
Cymru	86-91%	86-91%	86-91%

Ardal ddaearyddol nad yw'n cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau digyswllt)	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	4%	4%	4%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	1%	1%	1%
Yr Alban	11%	11%	10%
Cymru	5%	5%	4%

Darpariaeth ar bob ffordd (mewn cerbyd) – ystod darpariaeth ar draws Gweithredwyr Rhwydwaith Symudol	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	86-94%	86-95%	87-95%
Lloegr	90-98%	90-98%	90-98%
Gogledd Iwerddon	71-93%	72-93%	73-94%

Yr Alban	77-88%	77-88%	77-88%
Cymru	82-88%	82-88%	82-88%

Pob ffordd (mewn cerbyd) nad yw'n cael darpariaeth gan unrhyw weithredwr (mannau digyswllt)	Medi 2021	Ionawr 2022	Mai 2022
Y DU	2%	2%	2%
Lloegr	1%	1%	1%
Gogledd Iwerddon	3%	3%	3%
Yr Alban	4%	3%	3%
Cymru	5%	5%	5%

Nodyn 7: Dyma'r trothwyon ar gyfer llais a thestun: 2G (-81 dBm), 3G (-100 dBm), 4G (-105 dBm).